



Cwestiynau cyffredin i gynghorwyr

 TV LICENSING

TRWYDDEDU TELEDU

tvlicensing.co.uk



Mae'r canllaw yma i gynghorwyr yn anelu at ateb rhai o'r cwestiynau ychwanegol sydd gennych o bosib am Drwyddedu Teledu.

Os bydd arnoch angen unrhyw gymorth pellach gyda'r materion yma, cysylltwch â'n Swyddfa Ymgyrchoedd yn **campaignoffice@tvlicensing.co.uk**



Sut mae ffi'r drwydded yn cael ei gwario?

Bydd tîm Trwyddedu Teledu yn casglu tua £3.7bn oddi wrth dalwyr ffi'r drwydded bob blwyddyn, gan ffurfio prif ffynhonnell ariannol y BBC. Byddwn yn ceisio casglu'r ffi yn y ffordd fwyaf effeithlon, er mwyn caniatáu i gymaint o arian â phosib fynd tuag at wasanaethau a rhaglenni'r BBC. I weld yn union lle mae'r arian yn mynd, ewch i bbc.co.uk/annualreport

Pryd y mae angen trwydded?

Mae angen Trwydded Deledu i wyllo neu recordio teledu byw ar unrhyw sianel, ac ar unrhyw ddyfais – mae hyn yn cynnwys ar lein ar dabled neu ffôn. Mae arnoch angen Trwydded Deledu hefyd os ydych yn lawrlwytho neu'n gwyllo rhaglenni'r BBC ar BBC iPlayer.



Pryd nad oes angen trwydded?

Os ydych ond yn gwyllo rhaglenni ar alw o wasanaethau fel Netflix, Amazon Prime, All4 neu ITV Player, does arnoch ddim angen trwydded.



Taliadau a Chonsesiynau

Sut galla'i wneud taliad ar ran cleient neu gwsmer?

Yn gyntaf oll, bydd angen i chi basio ein proses adnabod a dilysu a dod yn hyn rydym yn ei alw'n "enwebai awdurdodedig".

Fe all enwebai awdurdodedig weithredu ar ran deiliad y drwydded, ar yr amod bod caniatâd ysgrifenedig yn cael ei roi. Os yw hon yn weithred unigol, fe allai deiliad y drwydded roi enwebiad dros dro. Fe all y caniatâd yma gael ei roi ar lafar.

Byddai angen i'r sawl sy'n cael ei enwebu fynd trwy broses adnabod, a fyddai'n gofyn am y wybodaeth ganlynol am ddeiliad y drwydded:

- Llythyren gyntaf
- Cyfenw
- Llinell gyntaf eu cyfeiriad
- Côd post
- Rhif y Drwydded Deledu neu gyfeirnod
- Eu dull talu

Os hoffech siarad â ni ar ran cleient, byddem yn argymhell eich bod yn gofyn iddyn nhw fod yn bresennol tra byddwch yn ffonio. Mae hyn yn gwneud y broses adnabod yn haws a gallwn eich helpu yn fwy effeithiol.

Sut gall fy nghleient wneud taliad ar ran aelod o'r teulu?

Fe all eich cleient dalu am drwydded rhywun arall trwy ddefnyddio eu cyfrif banc neu gerdyn credyd neu ddebyd eu hunain i wneud hynny. Os ydyn nhw'n defnyddio cerdyn neu fanylion banc rhywun arall, byddai arnom angen caniatâd (un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig) oddi wrth ddeiliad y cerdyn neu ddeiliad y cyfrif banc cyn y gallwn fwrw ymlaen.

Gallm hefyd fwrw ymlaen petaem wedi gweld dogfen pŵer atwrnai neu debyg, sy'n rhoi awdurdod i'r talwr weithredu ar ran rhywun arall.

Pam mae tâl o £5 ar gyfer cwsmeriaid Debyd Uniongyrchol chwarterol?

Yn wahanol i filiau cyfleustod a biliau eraill defnyddwyr, sydd fel arfer yn cael eu hôl-dalu, mae ffi'r Drwydded Deledu yn ffi sefydlog ac mae'r ffi yn cael ei chodi'n flynyddol ymlaen llaw. Oherwydd bod modd ôl-dalu am ffi'r drwydded dan y cynllun Debyd Uniongyrchol chwarterol, mae'r dull talu yma'n dod gyda tâl blynyddol o £5 (£1.25 bob chwarter). Mae'r swm yma'n cael ei bennu gan y llywodraeth a byddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am y tâl pryd bynnag y byddan nhw'n dewis y dull talu yma. Mae'n cael ei amlinellu hefyd yn y cynllun talu sy'n dod gyda phob trwydded newydd. Petai'n well gan bobl beidio â thalu hyn, yna mae ffyrdd eraill o dalu heb y tâl ar gael, gan gynnwys Debyd Uniongyrchol blynyddol a misol.

Pam mae pobl sy'n ymuno â'r cynllun Debyd Uniongyrchol misol neu'r cynllun talu arian parod yn talu am eu trwydded lawn yn y chwe mis cyntaf?

Yn yr un ffordd ag mae angen i chi dalu am drwydded yrru cyn gyrru car, chewch chi ddim gwyllo'r teledu heb dalu am Drwydded Deledu yn gyntaf.

Rydym yn cynnig amryw o ddulliau talu i helpu cwsmeriaid i rannu'r gost. Bydd cwsmeriaid sy'n ymuno â'r cynllun Debyd Uniongyrchol misol am y tro cyntaf yn talu am eu trwydded gyntaf yn y chwe mis cyntaf. Mae taliadau dilynol am y drwydded yn llai, ac yn cael eu rhannu dros gyfnod o 12 mis.

Os nad yw hyn yn addas, gallwn weithio gyda'ch cleient i ddod o hyd i ddull talu arall sy'n well iddyn nhw.

A yw'n bosib i fy nghleient gael "seibiant rhag talu" os ydyn nhw'n cael anhawster neu os yw eu hamgylchiadau wedi newid?

Gan mai'r gyfraith sy'n pennu'r gofyniad i ddal Trwydded Deledu, allwn ni ddim cynnig "seibiant rhag talu". Ond, ein nod yw helpu cwsmeriaid i barhau wedi'u trwyddedu pryd bynnag y bo modd ac, os yw cwsmeriaid yn wynebu anawsterau o ran talu, mae angen iddyn nhw ein ffonio cyn gynted â phosib, oherwydd mae'n bosib y gallwn helpu. Mae gennym broses hefyd ar gyfer ystyried addasiadau rhesymol, yn bennaf ar gyfer cwsmeriaid anabl, er y gellir ystyried hyn hefyd ar gyfer y rhai sy'n arbennig o agored i niwed, neu ag anghenion penodol eraill.

Mae fy nghleient wedi bod yn ddirwydded ers nifer o flynyddoedd. Sut bydd Trwyddedu Teledu yn datblygu amserlenni talu ar gyfer cwsmeriaid a fu'n ddirwydded am gyfnod hir?

Ar gyfer cwsmeriaid sy'n dweud wrthym iddynt fod yn gwyllo teledu heb drwydded, byddai'r drwydded yn dechrau o'r diwrnod y gwnaethon nhw gysylltu â ni ac – yn hytrach na phara am flwyddyn lawn – byddai'n para blwyddyn o'r dyddiad y dywedodd y cwsmer iddynt ddechrau defnyddio teledu heb drwydded. Ond, ni fyddem byth yn mynd yn ôl fwy nag 11 mis.

Os gwnaeth y cwsmer ymuno â chynllun talu arian parod, byddai angen talu am y drwydded gyntaf o fewn y chwe mis cyntaf. Ar ôl hynny, fe fyddan nhw'n gallu rhannu cost y drwydded dros flwyddyn, gan dalu chwe mis ymlaen llaw a chwe mis o ôl-daliadau.

Ni all fy nghleient fforddio'r isafswm taliad wythnosol. Beth ddylen nhw ei wneud?

Rydym yn cynnig nifer o ddewisiadau i helpu cwsmeriaid i rannu'r gost mewn ffordd sy'n gweithio orau iddyn nhw. Byddem yn annog unrhyw un sy'n cael trafferth talu i gysylltu â ni – fe wnawn ni geisio helpu i addasu taliadau i gael y cwsmer yn ôl ar y trywydd iawn. Rydym eisiau helpu pobl i barhau wedi'u trwyddedu ond, gan fod trwydded yn ofyniad cyfreithiol, mae unrhyw un sy'n parhau i wyllo teledu byw neu BBC iPlayer heb drwydded yn mentro wynebu erlyniad a dirwy.

Mae ein cynlluniau talu yn cael eu rheoleiddio gan y llywodraeth felly, yn wahanol i gwmnïau cyfleustod er enghraifft, mae yna derfyn ar ein dewisiadau o ran ad-dalu.

A yw Trwyddedu Teledu yn defnyddio asiantaethau casglu dyledion?

Ydi. akinika Debt Recovery Limited yw'r unig asiantaeth casglu dyledion y bydd Trwyddedu Teledu yn ei defnyddio ac mae'n cael ei rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA).

Bydd akinika yn ceisio gosod cynlluniau talu realistig ar gyfer ein cwsmeriaid ac yn gweithio gyda nhw i gasglu'r arian sy'n ddyledus. Fe fyddan nhw'n defnyddio amryw o wahanol ffyrdd o gysylltu â chwsmeriaid, gan gynnwys drwy'r post a thros y ffôn, ond fyddan nhw ddim yn galw heibio cartref y cwsmer. Ni fydd Trwyddedu Teledu byth yn defnyddio beiliod. Bydd llysoedd yn defnyddio beiliod i gasglu dirwyon, gan gynnwys dirwyon am osgoi Trwydded Deledu.

Bydd y cwsmer yn ad-dalu swm y taliadau a fethwyd sy'n ddyledus yn unig. Ni fydd akinika Debt Recovery Limited yn ychwanegu unrhyw gostau.

Mae fy nghleient wedi derbyn e-bost neu neges testun amheus. Sut galla'i ddweud a yw'n neges oddi wrth Drwyddedu Teledu?

Bydd ein negeseuon testun ac e-byst swyddogol bob amser yn eich cyfeirio at ein gwefan swyddogol (tvlicensing.co.uk) neu at ein canolfan alwadau. Dylai unrhyw un sydd wedi rhoi eu manylion o ganlyniad i e-bost neu neges testun dwyllodrus riportio'r twyll i Linell Gymorth Action Fraud. I gael gwybod mwy, ewch i tvlicensing.co.uk/faqs/FAQ233

Faint fydd y Drwydded Deledu yn gostio yn y blynyddoedd i ddod?

Ffi flynyddol y drwydded ar hyn o bryd yw £159.00. Y llywodraeth sy'n gyfrifol am osod lefel ffi'r drwydded, ac fe gyhoeddodd y byddai'r ffi yn codi'n unol â chwyddiant am bum mlynedd o 1 Ebrill 2017. Byddwn yn parhau i weithio â sefydliadau ar draws y Deyrnas Unedig i roi gwybod am y newidiadau yma wrth iddyn nhw ddiweddu a diweddarau eich adnoddau.





Allwch chi ddod o hyd i gwsmeriaid sy'n gwyllo teledu ar lein ar gyfrifiadur neu dabled?

Rydym wedi dal ac erlyn pobl sy'n gwyllo ar bob math o ddyfeisiau. Mae gan y mwyafrif helaeth o bobl Drwydded Deledu, sy'n golygu y gallant wylio ar unrhyw ddyfais. Mae'r niferoedd sy'n osgoi yn isel iawn, sef rhwng chwech neu saith y cant.

A yw'n bosib aros hyd nes y bydd swyddog ymholi yn ymweld cyn prynu Trwydded Deledu?

Er y gall ein swyddogion ymholi gymryd taliadau pan fyddan nhw'n ymweld, mae'n bosib na fyddai hyn yn atal y risg o erlyniad petai'r preswilydd wedi bod yn gwyllo teledu byw heb drwydded.

Er mwyn osgoi'r risg o erlyniad, fe ddylai eich cleient brynu Trwydded Deledu cyn gynted ag y byddan nhw'n dechrau gwyllo teledu, boed hynny'n fyw neu ar BBC iPlayer. Mae yna lawer o wahanol ffyrdd o dalu am drwydded ac mae'r rhain i'w gweld yn tvlicensing.co.uk/payinfo



Pa brotocol sy'n rhaid i swyddog ymholi ei ddilyn?

Bydd ein holl swyddogion ymholi yn cydymffurfio â rheolau ymddygiad, sy'n golygu y bydd angen iddyn nhw fod yn foneddigaidd a chwrtais bob amser. Mae hyn yn golygu y byddan nhw'n gwneud pethau fel profi pwy ydyn nhw ac egluro pam eu bod yn ymweld, cymryd datganiad os bydd angen, a byth fod yn fygythiol.

Bydd ein holl swyddogion yn cario cardiau adnabod yn ogystal â chardiau diogelwch gyda rhif llinell gymorth (0300 790 6046) y gall pobl ei ffonio i gadarnhau pwy ydyn nhw.

Mae fy nghleient wedi tynnu'r hawl mynediad i'w heiddo. A all Trwyddedu Teledu ymweld â'u cartref o hyd?

Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon rydym yn cydnabod y gall hawl cyfraith gwlad i swyddogion Trwyddedu Teledu ymweld â'ch eiddo gael ei dynnu'n ôl, ond byddwn yn defnyddio dulliau canfod eraill i weld a oes angen trwydded. Nid ydym yn cydnabod y tynnu'n ôl hwn yn yr Alban gan fod deddfau gwahanol yn gymwys.

Mae fy nghleient wedi derbyn llythyr yn dweud y bydd yn cael ei erlyn. Gyda phwy alla'i siarad am hyn?

Os yw eich cleient wedi derbyn hysbysiad ac yr hoffech gael gair â rhywun am hynny neu am eu hamgylchiadau, ffoniwch ni ar 0300 790 6042. Os ydych yn gweithredu ar ran eich cleient, cofiwch sicrhau eu bod gyda chi pan fyddwch yn ffonio, neu eich bod yn gallu darparu ffurflen awdurdod wedi'i llofnodi gan eich cleient.

Mae rhagor o wybodaeth am ein polisi erlyn a'n côd erlyn i'w chael yma:

[tvlicensing.co.uk/about/foi-policies-AB17](https://www.tvlicensing.co.uk/about/foi-policies-AB17)

Erlyn yw'r dewis olaf i ni, pan fyddwn wedi dihybyddu pob dewis arall. Fel arfer byddwn yn tynnu achosion yn ôl os mai hwn yw'r trosedd cyntaf a bod unigolion wedi prynu trwydded wedyn neu wedi cofrestru ar gyfer cynllun talu a'u bod yn cynnal taliadau. Nid yw hyn yn berthnasol os oes amgylchiadau gwaethyngol, er enghraifft fod angen defnyddio gwarant chwilio i gael mynediad.

Allwch chi gael eich carcharu am osgoi Trwydded Deledu?

Na allwch, allwch chi ddim mynd i'r carchar am osgoi Trwydded Deledu. Mae osgoi yn drosedd a'r gosb uchaf yw dirwy o £1,000, ynghyd â chostau'r llys a gordal i ddioddefwyr. Gellir rhoi dedfryd o garchar am beidio â thalu dirwyon y llys, gan gynnwys dirwyon am fethu bod â Thrwydded Deledu. Ond, anaml y bydd y llysoedd yn gorfodi hyn a dim ond pan fydd pobl yn gwrthod talu'r ddirwy ddyledus mewn ffordd fwriadol neu feius.



Gweithio gyda chymunedau

Sut byddwch yn cefnogi sefydliadau yn y gymuned?

Byddwn yn gweithio gyda thros 450 o sefydliadau ar draws y Deyrnas Unedig, gan feithrin perthnasau i sicrhau bod pobl yn deall pryd y mae angen trwydded a'r holl ffyrdd gwahanol o dalu. Byddwn yn gweithio'n genedlaethol a rhanbarthol gyda chanolfannau cyngor ariannol, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, sefydliadau hygyrchedd, cymdeithasau tai, grwpiau busnes ac awdurdodau lleol mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys briffio cynghorwyr a darparu taflenni gwybodaeth. I gael gwybod mwy am ein gwaith, ewch i [tvlicensing.co.uk/communityinfo](https://www.tvlicensing.co.uk/communityinfo)

Sut bydd Trwyddedu Teledu yn cyfathrebu â chymunedau nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf?

Mae Trwyddedu Teledu wedi ymrwymo'n barhaus i helpu pawb, ni waeth beth fo'u hiaith neu gefndir, i ddeall y gyfraith a'r lluo o ffyrdd o dalu am Drwydded Deledu. Er mwyn ceisio sicrhau bod pawb yn cael manteisio'n deg ar wybodaeth bwysig am Drwyddedu Teledu, rydym yn darparu amryw o adnoddau amlieithog ar lein ac mewn print, ac rydym yn cynnig gwasanaethau cyfieithu dros y ffôn. Fe gewch wybod mwy am yr adnoddau yma yn [tvlicensing.co.uk/languages](https://www.tvlicensing.co.uk/languages)

A yw fy nghleient yn cael eu heithrio rhag talu am Drwydded Deledu os ydynt yn gwyllo teledu lloeren o wlad arall yn unig?

Nac ydynt, bydd arnyn nhw angen trwydded o hyd, hyd yn oed os ydyn nhw ond yn gwyllo neu'n recordio rhaglenni sydd wedi'u darlledu o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig. Mae arnoch angen Trwydded Deledu i wyllo neu recordio rhaglenni wrth iddyn nhw gael eu dangos ar deledu neu'n fyw ar wasanaeth teledu ar lein, neu wyllo rhaglenni'r BBC ar BBC iPlayer, ni waeth pa ddyfais rydych yn ei defnyddio.

Pa bethau fyddwch chi'n eu hystyried ar gyfer cwsmeriaid sy'n byw gydag anabledd neu faterion iechyd meddwl?

Mae gennym broses addasiadau rhesymol a pholisi ar gyfer cwsmeriaid agored i niwed, sy'n golygu y byddwn yn addasu'r ffordd rydym yn gweithio gyda chwsmeriaid os oes ganddyn nhw faterion anabledd neu iechyd meddwl. Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi i adnabod pobl sydd angen cymorth ychwanegol. Byddwn yn gweithio'n agos iawn gyda sefydliadau iechyd meddwl ac anabledd ac rydym bob amser yn edrych ar sut gallwn wella'r ffordd rydym yn cyfathrebu â phobl sy'n agored i niwed. Cysylltwch â ni ar 0300 790 6042 os oes arnoch angen cyngor neu wybodaeth am gonsesiynau fel y gostyngiad o 50% i'r rhai sy'n ddall (â nam difrifol ar eu golwg) neu ar 0300 790 6076 os ydych yn ceisio addasiad rhesymol ar ran cleient neu os ydych yn awyddus i siarad â ni ar ran cwsmer sy'n agored i niwed.





Cysylltu â Thrwyddedu Teledu

Sut galla'i gael gwybod am newidiadau deddfwriaethol a diweddariadau i bolisiau Trwyddedu Teledu a allai effeithio ar fy nghleientiaid?

Byddwn yn anfon e-byst rheolaidd ar newidiadau deddfwriaethol a diweddariadau i bolisiau Trwyddedu Teledu, a gallwch danysgrifio i'w derbyn trwy e-bostio campaignoffice@tvlicensing.co.uk

A oes rhif ffôn am ddim ar gyfer cysylltu â Thrwyddedu Teledu?

Mae ein holl rifau ar gyfradd safonol o bob llinell dir a ffôn symudol. Ein rhif ffôn yw 0300 790 6042. Neu, gall cwsmeriaid brynu trwydded, neu ddweud wrthym nad oes arnynt angen trwydded ar ein gwefan yn tvlicensing.co.uk/info

Sut galla'i siarad yn uniongyrchol â rhywun yn Nhrwyddedu Teledu ar ran fy nghleient?

Ar hyn o bryd rydym yn treialu llinell gymorth un pwrpas ar gyfer cynghorwyr gyda rhai sefydliadau cyngor ariannol cenedlaethol, a'r gobaith yw y bydd ar gael yn ehangach yn y dyfodol. Yn y cyfamser, os oes arnoch angen siarad â rhywun ar frys, gallwch ffonio ein Swyddfa Ymgyrchoedd ar **020 8752 6537**. Neu, fe all eich cleient ffonio rhif ein gwasanaethau i gwsmeriaid ar **0300 790 6042**.

Rydym yn croesawu galwadau, e-byst a llythyrau gan y cyhoedd yn Gymraeg, a byddwn yn ymateb yn Gymraeg. Mae'r amseroedd ymateb trwy ein sianeli cyswllt â chwsmeriaid yr un fath yn Gymraeg a Saesneg. I gael manylion ewch i tvlicensing.co.uk/cymraeg

I glywed y diweddaraf a chael newyddion cymunedol oddi wrth Drwyddedu Teledu, dilynwch ni ar Twitter yn [@tvlicensingnews](https://twitter.com/tvlicensingnews) ac ar YouTube yn youtube.com/tvlicensing



TRWYDDEDU TELEDU

tvlicensing.co.uk